

Gwiriad Ansawdd Ysbyty Maes

Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

Cadwaladr

Dyddiad y Gwiriad Ansawdd: 10-
11 Chwefror 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mawrth
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n gwiriad ansawdd	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
4.	Beth nesaf?	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd â phwyslais penodol o Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 10 ac 11 Chwefror 2021.

Cynhaliwyd y gwiriad ansawdd â phwyslais penodol hwn o bell mewn ymateb i'r wybodaeth a ddaeth i law AGIC mewn perthynas ag agweddau ar yr ysbyty. Yn benodol, roedd AGIC am sicrhau nad oedd y broses o ehangu'r meini prawf derbyn ar gyfer y lleoliad yn effeithio ar ddarparu gofal diogel ac amserol i'r cleifion.

Er mwyn sicrhau bod trefniadau staffio addas ar y safle i hwyluso ein gwiriad ansawdd, gan gydnabod natur sensitif o ran amser ein pryderon, cafodd y bwrdd iechyd 24 awr o rybudd cyn y gwiriad ansawdd hwn.

Roedd ein tîm ar gyfer y gwiriad ansawdd yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC a thri adolygwr cymheiriaid clinigol AGIC.

Gwelsom sampl o gofnodion meddygol a nyrsio pum claf, a oedd yn cynnwys cleifion yr oedd angen eu cludo yn ôl i safle aciwt ar frys a chleifion a fu fawr yn yr ysbyty maes.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a chanllawiau a deddfwriaeth berthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n gwiriad ansawdd

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff yn ymrwymedig ac yn anelu at ddarparu gofal caredig a thosturiol i'r cleifion. Cafodd hyn ei ategu gan dystiolaeth o drefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth o dystiolaeth wedi ein harwain at y casgliad nad ydym yn sicr bod y cleifion yn cael gofal amserol, diogel ac effeithiol o safon addas yn gyson.

Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer sicrhau bod nifer digonol o staff a oedd â chymysgedd addas o sgiliau ar gael, gan gynnwys cydnabod yr angen i ddiwallu anghenion hyfforddiant o ran uwchsgilio'r staff nyrsio a'r staff gofal iechyd.

Gwelsom fod ymdrech sylweddol wedi ei wneud o ran y gwaith o gynllunio a gweithredu'r ysbyty maes er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol, a gwnaethom nodi nifer o ganfyddiadau cadarnhaol i gefnogi hyn.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cleifion wedi cael gofal o'r safon ofynnol yn gyson. Roedd hyn am na allem fod yn sicr bod gofal amserol ac effeithiol wedi cael ei ddarparu bob amser. Arweiniodd hyn at ysgrifennu llythyr i'r bwrdd iechyd yn syth ar ôl y gwiriad ansawdd o dan broses sicrwydd uniongyrchol AGIC.

Roedd y bwrdd iechyd yn agored ac yn cydgysylltu wrth wrando ar ein hadborth, ac ers hynny, rydym wedi cael sicrwydd digonol bod camau wedi cael eu cymryd mewn ymateb i'r materion hyn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig i ddarparu gofal caredig a thosturiol
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth cadarnhaol â phartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys amrywiaeth o dimau meddygol, nyrsio a therapiwtig o bob rhan o'r bwrdd iechyd
- Mewnbyn therapiwtig cadarnhaol yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i gleifion
- Mynediad at drefniadau uwchsgilio'r staff a sesiynau hyfforddiant, gan gynnwys argaeledd nyrs datblygu ymarfer.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau llwybrau gofal priodol i gefnogi gofal unigol
- Dogfennu trafodaethau sy'n ymwneud â gofal diwedd oes
- Adolygu gofynion Atal a Rheoli Heintiau yn unol â'r modelau gofal a ddarperir
- Cadw cofnodion a dogfennau ar gyfer pob maes.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 694,000 ledled ardal Gogledd Cymru.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r bwrdd iechyd wedi cynllunio i gomisiynu nifer o ysbytai maes newydd yn y rhanbarth i gefnogi gwasanaethau ysbytai aciwt drwy greu capasiti ychwanegol ar gyfer gofal cleifion. ¹ O ganlyniad i'r pandemig, mae byrddau iechyd yn wynebu heriau'r lleihad yn nifer y gwelyau mewn ysbytai aciwt yn sgil mesurau cadw pellter cymdeithasol, fflw'r gaeaf a phwysau tymhorol y gaeaf. Mae defnyddio ysbytai maes yn lleihau'r pwysau ar ysbytai aciwt.

Mae Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy yn un o dri ysbyty maes sydd wedi'i leoli yn ardal y bwrdd iechyd. Ar hyn o bryd, mae ganddo gapasiti ar gyfer 45 o gleifion, a fydd yn derbyn gofal gan dîm amlddisgyblaethol yn cynnwys nyrsys, meddygon a therapyddion.

¹ Ysbyty dros dro yw ysbyty maes

Ansawdd profiad y claf

Am fod hwn yn wiriad ansawdd o bell, ni chawsom gyfle i ymgysylltu â'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom ystyried y ffordd y byddai gofal yn cael ei ddarparu i gleifion mewn modd urddasol, unigol ac amserol.

Gofal ag urddas

Gwnaethom ystyried y ffordd y mae trefniadau darparu gofal, cyfleusterau ac amgylchedd y safle wedi helpu i hybu gofal ag urddas i'r cleifion. Gwnaethom nodi, oherwydd natur cynllun yr ysbyty maes, nid oedd yn gallu darparu'r un lefel o breifatrwydd ac urddas â safle ysbyty pwrpasol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod y safle hwn wedi cael ei adeiladu yn ystod pandemig byd-eang a gwnaed ymdrech sylweddol gan y bwrdd iechyd a phartneriaid allanol er mwyn sicrhau bod anghenion preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu diwallu gymaint â phosibl.

Roedd yn gadarnhaol nodi, er gwaethaf rhai o'r heriau amgylcheddol, dangosodd pob aelod o'r staff meddygol a'r staff nyrsio y gwnaethom siarad â nhw ymrwymiad gwirioneddol i ddarparu gofal caredig a thosturiol i bob claf.

Gwelsom fod y staff yn dra ymwybodol o'r gwahaniaethau amgylcheddol, gan ddweud wrthym am nifer o ffyrdd roeddent yn goresgyn yr heriau hyn. Er enghraifft, drwy wneud yn siŵr bod digon o olau ar y safle yn y bore er mwyn helpu i gyfeirio'r cleifion, a gosod cleifion â symudedd gwael yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn agos at y toiledau a chyfleusterau'r ystafelloedd ymolchi. Gwelsom fod sgriniau symudol ar gael er mwyn rhoi mwy o breifatrwydd i gleifion wrth ymyl eu gwelyau. Gwelsom hefyd fod clychau galw ar waith i gleifion yr oedd angen cymorth arnynt.

I gleifion ar lwybr gofal diwedd oes², roedd yn galonogol clywed bod y staff yn rhoi pwyslais ar ddarparu gofal caredig a thosturiol. Dywedodd y staff wrthym eu

² Dogfen sy'n tywys gweithwyr proffesiynol gofal drwy gynllun gofal rhywun yn ystod wythnosau neu ddiwrnodau olaf eu bywyd yw llwybr gofal diwedd oes.

bod yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio sgriniau preifatrwydd a galluogi perthnasau i ddod i mewn a gadael drwy fynedfeydd gwahanol pan yn ymweld. Dywedwyd wrthym y gellid hefyd ddefnyddio manau tawel y ward, ond gwnaethom nodi y gallai hyn beri problem ynddo'i hun gan y gall rhai cleifion fod mewn ardal ar eu pen eu hunain, a allai arwain at rai cleifion yn teimlo'n ynysig.

Gwnaethom gadarnhau bod matresi lleddfu pwysau addas a meddyginiaeth rhag-gynllunio³ ar gael. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi cael eu huwchgilio er mwyn darparu gofal i'r grŵp cleifion hwn a bod mynediad at y tîm gofal lliniarol arbenigol ar gael os oedd angen. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y timau meddygol wedi cysylltu â'r tîm gofal lliniarol arbenigol am fod eu cefndir proffesiynol presennol wedi eu galluogi i gefnogi'r cleifion hyn. Gwnaethom gadarnhau y byddent yn gwneud hynny os oedd angen.

Cawsom enghreifftiau lle y gwnaeth cleifion ddewis dychwelyd gartref neu fynd i hosbis ar gyfer diwrnodau olaf eu bywydau ar ôl cael eu derbyn i'r safle, a gwnaethom nodi bod trefniadau rhyddhau cleifion yn gyflym er mwyn hwyluso hyn. Er ein bod yn cydnabod ei bod yn bosibl y gall cleifion newid eu meddwl yn ystod yr adeg anodd hon, nid oeddem bob amser yn gallu nodi pa drafodaethau oedd wedi cael eu cynnal â'r cleifion cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r safle o'r lleoliad aciwt.

Ar y cyfan, yn y sampl o gofnodion y cleifion a welsom, gwelwyd bod diffyg o ran dogfennu cynllun gofal diwedd oes unigol yn unol â llwybr y Bwrdd Iechyd ei hun, gan gynnwys diffyg siartiau meddyginiaeth lleddfu poen i ni eu hadolygu. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod cleifion yn cael gofal unigol bob amser. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod gan y bwrdd iechyd lwybr gofal diwedd oes, er na chafodd hyn ei ddefnyddio yng nghynlluniau gofal y cleifion a arolygwyd gennym. Os caiff y llwybr gofal hwn ei ddefnyddio, byddai'n annog gofal unigol i gleifion ar ddiwedd eu hoes.

Yr hyn sydd angen ei wella

O ystyried amgylchedd newydd ysbyty maes, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod trafodaethau diwedd oes yn cael eu cofnodi yn nodiadau cleifion

³ Meddyginiaeth sydd wedi'i chynllunio i leddfu poen yn gyflym.

cyn iddynt gael eu trosglwyddo o'r safle er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion wedi gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y llwybr cywir a'r ddogfennaeth gywir yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal unigol yn unol â'i bolisi ei hun a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes.

Gofal amserol

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a oedd yn cynnwys cleifion yr oedd angen iddynt gael eu trosglwyddo ar frys o'r safle yn ôl i amgylchedd gofal aciwt. Gwelsom y canlynol:

- Cafodd arsylwadau ar y cleifion eu cofnodi mewn siart a gydnabyddir yn genedlaethol drwy ddefnyddio NEWS⁴ i nodi cleifion a allai fod yn mynd yn sâl, a bod system sbardun glir ar waith er mwyn uwchgyfeirio cleifion i uwch-aelodau o'r staff meddygol. Er i ni weld bod arsylwadau ar y cleifion yn cael eu cofnodi ar y cyfan, a bod y staff nyrsio yn uwchgyfeirio'r cleifion yn briodol, ni allem fod yn sicr bod hyn yn digwydd ar bob achlysur.
- Nid oedd rhai cleifion a oedd wedi dirywio ac yr oedd angen iddynt gael eu trosglwyddo yn ôl i safle aciwt, wedi cael eu trosglwyddo ar y cyfle cynharaf. Roedd hyn yn golygu nad oedd gofal priodol bob amser yn cael ei ddarparu yn y modd mwyaf amserol.

O ganlyniad i natur ddifrifol y pryderon hyn, roedd yr agwedd hon ar y gwiriad ansawdd yn ffurfio rhan o'r llythyr sicrwydd uniongyrchol y gwnaethom ei anfon i'r Bwrdd lechyd yn union ar ôl y gwiriad ansawdd.

Gwnaethom gadarnhau bod y broses ar gyfer trosglwyddo cleifion allan o'r ysbyty, pan fo angen, yn gweithio mewn modd amserol. Gwnaethom nodi bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi bod yn bartner pwysig wrth sefydlu'r safle a nododd y staff fod y broses hon yn gweithio'n dda.

⁴ Adnodd sy'n gwella'r broses o ganfod dirywiad clinigol ymhlith cleifion sy'n oedolion ac ymateb iddo yw NEWS, ac mae'n elfen allweddol o ddiogelwch cleifion a gwella canlyniadau cleifion

Hawliau pobl

Gwnaethom ystyried y ffordd yr oedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal, yn enwedig mewn perthynas â'r cleifion hynny yr oedd eu galluedd meddyliol yn amrywio neu'r cleifion hynny â diffyg galluedd meddyliol. Gwelsom fod y cleifion â namau gwybyddol wedi cael eu derbyn i'r safle am gyfnod byr o amser er mwyn lleddfu pwysau ar y bwrdd iechyd ar y pryd. Gwelsom fod ymwybyddiaeth gyffredinol o ofynion y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DOLS) a'r angen i sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu er budd pennaf y cleifion. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â'r staff ac ar ôl adolygu cofnodion y cleifion, ni allem fod yn sicr bod y staff bob amser yn cydnabod yn glir pryd y dylid cymhwyso hyn. Er enghraifft, yn un o'r cofnodion a welsom, nid oeddem yn gallu dod o hyd i wybodaeth am unrhyw asesiad parhaus o alluedd meddyliol na chyfeiriad at allu'r claf i wneud penderfyniadau.

Dyweddodd y bwrdd iechyd wrthym ar adeg y gwiriad ansawdd, nad yw cleifion â nam gwybyddol yn cael eu derbyn i'r safle mwyach ac nad oedd gan unrhyw gleifion a gafodd eu derbyn ar y pryd nam gwybyddol. Dywedwyd wrthym y cynhelir asesiadau risg ar gyfer cleifion â nam gwybyddol sy'n cael eu hatgyfeirio i'r safle er mwyn pennu pa mor addas ydynt i gael eu derbyn. Lle na ellir diwallu anghenion y claf, gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod atgyfeiriadau i'r safle yn cael eu gwrthod. Dywedwyd wrthym hefyd fod cynlluniau ar waith i'r nyrs datblygu ymarfer ar y safle gyfrannu at hyfforddiant yn y maes hwn.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Am fod yn hwn yn wiriad ansawdd o bell, nid oeddem yn gallu ymgysylltu â'r cleifion, eu perthnasau na'u gofalywyr yn uniongyrchol. Fodd bynnag, roedd y staff wedi gallu darparu adborth cadarnhaol ar lafar i ni a gafwyd gan deuluoedd cleifion yr oedd staff yr ysbyty wedi gofalu amdanynt. Roedd y staff hefyd wrthi'n casglu adborth mwy ffurfiol gan gleifion a oedd yn defnyddio'r ysbyty maes.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gofal diogel

Pan agorodd Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy ym mis Tachwedd 2020, cafodd ei ddefnyddio ar gyfer cleifion aciwtedd isel a chanolog yn wreiddiol, o leiaf ddeg diwrnod ar ôl diagnosis COVID-19. Nid oedd angen ymyriadau meddygol ar y cleifion hyn yn yr ysbyty mwyach, ond roedd angen amser ychwanegol arnynt i wella drwy fodel gofal adsefydlu, y cyfeirir ato fel cam un.

Pan ddechreuodd pwysau'r gaeaf a phwysau'r pandemig gyrraedd eu lefelau gwaethaf ar safleoedd aciwt ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd ym mis Ionawr 2021, penderfynodd y bwrdd iechyd i ehangu'r meini prawf ar gyfer derbyn cleifion i'r ysbyty maes er mwyn cynnwys cleifion o ddiwrnod cyntaf eu diagnosis o COVID-19, yn amodol ar sgrinio addasrwydd yr atgyfeiriadau, pennu meini prawf eithrio diffiniedig a sicrhau cyflenwad clinigol 24 awr (y cyfeirir ato fel cam dau). Gofynnodd AGIC am sicrwydd ynghylch y ffordd y gallai'r model gofal hwn effeithio ar gleifion, yn benodol, sut y byddai cleifion sâl neu gleifion sy'n dirywio yn cael eu rheoli mewn modd diogel ac amserol.

Ar adeg cynnal y gwiriad ansawdd, cawsom wybod bod y safle newydd symud yn ôl i fodel gofal cam un. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion yn cael eu derbyn i'r safle ar ddiwrnod cyntaf eu diagnosis o COVID-19 mwyach. Felly, roedd y safle yn canolbwyntio ar ddarparu triniaeth adsefydlu i gleifion a oedd wedi cael diagnosis o COVID-19 o leiaf 14 diwrnod cyn hynny, erbyn hyn, yn ogystal â darparu llwybr gofal lliniarol yn ymwneud â COVID-19 a llwybr gofal lliniarol nad yw'n ymwneud â COVID-19.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Drwy drafodaethau â'r rheolwyr ar y safle, roedd yn glir i ni bod ymdrech sylweddol wedi cael ei rhoi ar sefydlu a chynllunio'r ysbyty maes yn y lle cyntaf, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r staff a'r cleifion. Gwnaed hyn drwy drefniadau gweithio effeithiol rhwng ystod o bartneriaid mewnol ac allanol, gan gynnwys amrywiaeth o dimau meddygol, nyrsio a therapiwtig o bob rhan o'r bwrdd iechyd, y cwmni rheoli cyfleusterau a Gwasanaeth Ambiwylans Cymru.

Roedd y staff yn gallu dweud wrthym sut y cafodd yr amgylchedd ei addasu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion ei gleifion. Gwnaethant hefyd

ddweud wrthym am sut y rhoddir gwybod am faterion diogelwch a sut yr eir i'r afael â nhw. Er enghraifft, drwy osod larymau ar ddrysau er mwyn sicrhau na all cleifion fynd i mewn i'r ward neu ei adael heb neb yn sylwi arnynt.

Gwelsom fod asesiad risg amgylcheddol wedi cael ei gynnal a bod llinellau atebolrwydd ac adrodd clir er mwyn gwneud yn siŵr bod camau yn cael eu cymryd mewn modd amserol.

Cafodd hyn ei ategu gan raglenni archwilio wythnosol a misol rheolaidd a sefydlwyd gan y tîm rheoli nyrsio. Roedd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir hefyd ar gyfer hyn.

Gwnaethom gadarnhau bod gan y safle drefniadau diogelu 24 awr er mwyn helpu i gynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwelsom fod asesiad risg briwiau pwysu wedi cael ei gynnal ar gyfer pob claf wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty ac roedd hyn yn destun adolygu rheolaidd. Gwnaethom gadarnhau bod mynediad addas at fatresi lleddfu pwysau ar gael i gleifion yr oedd eu hangen arnynt neu gleifion a oedd ar lwybr diwedd oes.

Atal cwympiadau

O ganlyniad i natur anghonfensiynol yr amgylchedd, mae'n bosibl bod cleifion yn fwy agored i'r risg o gwmpo. Fodd bynnag, gwelsom fod asesiad risg wedi cael cynnal mewn perthynas â'r amgylchedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod asesiadau risg o gwmpo unigol wedi cael eu cynnal ar gyfer cleifion wrth iddynt gael eu derbyn, a oedd yn cynnwys cymorth ffisiotherapi a staff i helpu cleifion i symud o amgylch y safle.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ofyn i'r staff a oedd staff atal a rheoli heintiau dynodedig ar gael i roi cyngor ac arweiniad. Dywedwyd wrthym fod y tîm atal a rheoli heintiau, gan gynnwys mewnbwn gan ficrobiolegydd, wedi cael eu cynnwys ar bob cam. Roedd hyn yn golygu y gallai staff gael cymorth a chyngor amserol ar faterion atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan reolwyr y ward, gyda mewnbwn gan dîm atal a rheoli heintiau y bwrdd iechyd. Roedd gan yr archwiliad linellau cyfrifoldeb ac amserlenni clir i'w cwblhau, yn ogystal â diweddariadau ar gynnydd unrhyw eitemau nad oedd wedi cael eu gweithredu. Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod amrywiaeth o archwiliadau atal a rheoli

heintiau a glanhau dyddiol, wythnosol a misol eraill yn cael eu cynnal gan Fetron y safle a rheolwyr y ward.

Ni welsom unrhyw arferion golchi dwylo am fod y gwiriad ansawdd hwn wedi'i gynnal o bell. Fodd bynnag, gwelsom ganllawiau i'r staff ar dechnegau golchi dwylo cywir a gwelsom fod archwiliad golchi dwylo a gafodd sgôr uchel wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

Gwnaethom ystyried sut y byddai cleifion a fyddai'n datblygu haint, megis norofeirws⁵, yn ystod eu cyfnod ar y safle, yn derbyn gofal. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trefniadau ynysu llym, a bod bae carfan ar gael i gleifion a oedd yn datblygu symptomau yn ystod eu cyfnod ar y safle. Fodd bynnag, yng nghofnodion un o'r cleifion a welwyd, gwelsom fod claf wedi cael ei dderbyn i'r safle heb gael canlyniad sampl carthion ac roedd angen cymryd sampl arall. Roedd hyn yn dangos bod ganddynt symptomau o hyd, a oedd yn peri risg o heintio'r staff a'r cleifion eraill. Roedd yn galonogol nodi bod y bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd i ni ar lafar ar unwaith bod gweithdrefn newydd wedi cael ei sefydlu yn dilyn adolygiad mewnol o'r digwyddiad hwn.

Gwnaethom hefyd ystyried sut y byddai'r amgylchedd clinigol yn cael ei lanhau'n effeithiol er mwyn hybu trefniadau rheoli haint. Gwelsom fod amserlenni glanhau ar waith i bob aelod o'r staff eu cwblhau, a gwelsom fod y rhain yn cael eu monitro gan reolwyr y ward er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth.

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd yr oedd y bwrdd iechyd wedi ystyried ei drefniadau atal a rheoli heintiau rhwng cam un a cham dau y model gofal, gan gynnwys y ffordd y mae cleifion heintus yn derbyn gofal:

- Gwnaethom gadarnhau bod y staff yn cael eu rhannu'n dimau er mwyn darparu gofal i gleifion positif neu gleifion a oedd yn gwella. Roedd pob aelod o'r staff yn destun asesiad risg unigol ac nid oedd unrhyw aelod o'r staff risg uchel yn gweithio mewn ardaloedd ar y ward lle roedd cleifion positif.
- Roedd asesiad risg ar waith er mwyn rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â lleoli cleifion positif, yn cynnwys rhannu amgylchedd y ward er mwyn sicrhau y

⁵ Byg stumog yw Norofeirws sy'n achosi chwydu a dolur rhydd.

gellid rhannu cleifion yn briodol. Fodd bynnag, ni allem fod yn gwbl sicr o effeithiolrwydd hyn o ganlyniad i'r heriau strwythurol ac amgylcheddol y mae'n rhaid eu hwynebu ar y safle a'r trefniadau lliniaru sydd ar waith.

- Drwy dderbyn cleifion â haint COVID-19 gweithredol, mae'r safle wedi'i ddynodi'n safle coch⁶ yn unol â chanllawiau'r DU⁷ Fodd bynnag, gwelsom fod y safle yn defnyddio ardaloedd coch a gwyrdd, a allai achosi cyfuniad o ganllawiau atal a rheoli heintiau a risg ymhlith grwpiau staff.
- Yn ystod cam un, gwelsom fod cleifion a oedd wedi cael diagnosis o COVID-19 10 diwrnod yn gynharach yn cael eu rhoi mewn ardal wyrdd pan nad ystyrir eu bod yn heintus mwyach. Byddem yn cynghori'r bwrdd iechyd i ystyried a fyddai angen llwybr oren ar gyfer y cleifion hyn, o ganlyniad i'r risg o gael eu heintio eto am eu bod yn agos at lifau o gleifion a gafodd ganlyniad positif a negatif yn ddiweddar.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu polisi atal a rheoli heintiau ei safle a chynnal asesiad risg sylweddol er mwyn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu bodloni yn unol â'r grŵp cleifion a'r model gofal. Cynghorir y bwrdd iechyd i ymgynghori ag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau arfer gorau yn cael eu hystyried.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod cyfleusterau ar gael ar y ddau safle i baratoi bwyd poeth ac oer. Gwelsom hefyd y gellid darparu ar gyfer gofynion deietegol arbennig.

Rheoli meddyginiaethau

⁶ Safle sy'n derbyn cleifion heintus yw safle coch, yn yr achos hwn, cleifion â diagnosis positif o COVID-19.

⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/wuhan-novel-coronavirus-infection-prevention-and-control#ppe-guidance-by-healthcare-context>

Dyweddod y staff wrthym am y ffordd yr oedd meddyginiaethau yn cael eu derbyn a'u rheoli ar y safle. Gwnaethom nodi bod fferylllydd penodedig wedi bod yn darparu cymorth fferyllol da. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y cleifion yn cyrraedd y safle â meddyginiaethau ychwanegol er mwyn atal unrhyw broblemau o ran cyflenwad.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom gadarnhau bod trefniadau addas ar waith i sicrhau cyflenwadau digonol o gyfarpar dadebru a chyfarpar brys. Cadarnhaodd rheolwyr y ward eu bod wedi ymgysylltu â thîm dadebru'r bwrdd iechyd a bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant hyd at lefel Cynnal Bywyd Sylfaenol⁸ o leiaf, gyda nifer ohonynt wedi dilyn cwrs cymorth bywyd brys lefel uwch.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Fel rhan o'r gwiriad ansawdd, gwnaethom adolygu cofnodion pum claf er mwyn ystyried y canlynol:

- Trefniadau rheoli atgyfeiriadau i'r ysbyty maes, gan gynnwys priodoldeb y rhain
- Trefniadau rheoli cleifion sâl, gan gynnwys monitro, cydnabod dirywiad ac uwchgyfeirio.

Gwelsom fod gan y safle restr ddiffiniedig o gleifion y gellir eu derbyn fel atgyfeiriadau i'r safle a chleifion na ellir eu derbyn fel atgyfeiriadau i'r safle, a chyfeirir at hyn fel y meini prawf cynnwys ac eithrio. Roedd yn gadarnhaol nodi y rhoddir pwyslais ar sicrhau addasrwydd cleifion drwy gynnal cyfarfodydd blaengynllunio wythnosol a chymhwyso proses a arweinir gan feddygon ymgynghorol wrth adolygu unrhyw atgyfeiriadau gan safleoedd aciwt. Roedd hyn yn golygu y gallai'r safle fod yn sicr y gellir diwallu anghenion gofal y cleifion, fel yr oeddent ar adeg eu derbyn. Gwelsom fod nifer o atgyfeiriadau wedi cael eu gwrthod, sy'n dangos yn glir bod y safle yn ymwybodol o'i gymysgedd o staff a'i gapasiti ar y pryd.

⁸Hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol i Oedolion

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau yn cael eu brysbennu gan feddygon teulu yn wreiddiol a bod dull gweithredu gofalus yn cael ei fabwysiadu lle y byddai meddygon teulu yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon at yr arweinydd clinigol. O safbwynt nyrsio, gwelwyd bod rhai anghysondebau o ran pwy oedd yn sgrinio atgyfeiriadau yn y cofnodion a welsom, ond cawsom sicrwydd bod rheolwr y ward bellach yn goruchwyllo pob atgyfeiriad.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion yn ymwneud â chleifion yr oedd angen iddynt gael eu trosglwyddo ar frys o'r safle yn ôl i leoliad aciwt. Mae hyn yn cynnwys cleifion a oedd wedi cael eu trin o dan gam un a cham dau y model gofal (o ddiwrnod cyntaf diagnosis positif o COVID-19), a gafodd eu trosglwyddo yn ôl am resymau a oedd yn ymwneud â COVID-19 a rhesymau nad oeddent yn ymwneud â COVID-19. Ni allem fod yn sicr bod trefniadau rheoli cleifion sâl, gan gynnwys eu monitro, cydnabod pan oeddent yn dirwyo a'u hywchgyfeirio yn ddigon cadarn ym mhob achos er mwyn cynnal y gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd hyn am na allem fod yn sicr bod y canlynol yn wir ym mhob achos:

- Bod cofnodion wedi cael eu cwblhau mewn modd mor gynhwysfawr ag sy'n ofynnol yn unol â chanllawiau proffesiynol
- Bod y cleifion bob amser wedi cael gofal amserol, gan gynnwys wrth eu hatgyfeirio yn ôl i safle aciwt
- Bod trefniadau sgrinio sepsis wedi cael eu cynnal er gwaethaf rhybuddion sbarduno
- Bod trefniadau dysgu gwersi a myfyrio wedi cael eu nodi er mwyn atal pethau rhag digwydd eto.

Ar yr adeg y cynhaliwyd y gwiriad ansawdd, dywedwyd wrthym fod y risg sy'n gysylltiedig â chleifion sydd wedi cael diagnosis positif o COVID-19 ddiwrnod yn ôl wedi cael ei lliniaru am fod y safle wedi rhoi'r gorau i dderbyn y cleifion hyn yn ddiweddar iawn. Mae hyn yn golygu bod y risg o gleifion yn dirywio ac yn mynd yn sâl iawn wedi lleihau. Roedd yn galonogol nodi hyn gan y byddai hyn yn galluogi i'r safle ganolbwyntio ar ei fodel gofal adsefydlu (cam un). Fodd bynnag, dywedwyd wrthym yn glir y byddai'n bosibl mynd yn ôl i'r model gofal hwn (cam dau) yn y dyfodol pe bai'r galw ar y safle yn cynyddu.

O ganlyniad i natur ddifrifol y pryderon hyn, roedd yr agwedd hon ar y gwiriad ansawdd yn ffurfio rhan o'r llythyr sicrwydd uniongyrchol y gwnaethom ei anfon i'r Bwrdd Iechyd yn union ar ôl y gwiriad ansawdd.

Yn ystod cam un y model gofal, gwelsom fod cleifion yn cael eu derbyn 10 diwrnod ar ôl cael eu diagnosis positif o COVID-19. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym ar ôl y gwiriad ansawdd, er bod y bwrdd iechyd wedi troi yn ôl at y model

gofal hwn, dim ond ar ôl 14 diwrnod y caiff cleifion o dan y model hwn eu derbyn bellach.

Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried addasrwydd ei benderfyniad i dderbyn cleifion 14 diwrnod ar ôl iddynt gael eu diagnosis positif o COVID-19 ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol, yn barhaus, gan gynnwys lleoliad y cleifion hyn ar y ward. Mae hyn am fod risg y gall cleifion islaw'r pwynt hwn, yn enwedig rhwng diwrnod saith a deg, waethygu, dirywio a gallai fod angen eu huwchgyfeirio. Dylid ystyried cyngor cenedlaethol a chanllawiau atal a rheoli heintiau wrth adolygu lleoliadau cleifion.

Fodd bynnag, roedd yn galonogol nodi mewn nifer o achosion, bod y ffaith bod y safle yn canolbwyntio ar adsefydlu wedi hwyluso adferiad cleifion fel y gallant gael eu rhyddhau'n llwyddiannus yn ôl i'w cartrefi eu hunain neu leoliad cymunedol arall yn effeithlon ac yn ddiogel. Clywsom am enghreifftiau o nifer o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer cleifion o ganlyniad i'r mewnbwn therapiwtig gan amrywiaeth o'r staff therapi ar y safle. Gwelsom mewn un enghraifft fod claf wedi gallu dychwelyd i'w gartref ei hun yn lle lleoliad gofal, ac felly roedd yr ysbyty wedi gwireddu dymuniadau'r claf hwnnw'n llwyddiannus ac wedi hybu ei annibyniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried addasrwydd parhaus ei benderfyniad i dderbyn cleifion 14 diwrnod ar ôl iddynt gael eu diagnosis positif o COVID-19, gan gynnwys lleoliad y cleifion hyn ar y ward, er mwyn sicrhau y gellir darparu gofal effeithiol sy'n cydymffurfio â mesurau atal a rheoli heintiau.

Cadw cofnodion

Fel y nodwyd mewn nifer o adrannau o'r adroddiad hwn, ni welsom unrhyw dystiolaeth o drefniadau cadw cofnodion o ansawdd uchel yn y sampl o gofnodion y cleifion a welwyd. Ar y cyfan, gwelsom nifer o hepgoriadau, anghysondebau a chamgymeriadau mewn perthynas â chofnodion a gwblhawyd gan y staff ar y safle ac ar safleoedd eraill y bwrdd iechyd a oedd wedi atgyfeirio cleifion i'r ysbyty maes. O ganlyniad, ni allem fod yn sicr bod cleifion yn cael gofal effeithiol bob amser.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwrdd iechyd wedi ymateb yn gyflym ac yn gadarn i'n pryderon mewn perthynas â chadw cofnodion. Dywedwyd wrthym hefyd fod mwy o archwiliadau o gofnodion a arweinir gan uwch-nyrs yn cael eu cynnal bob dydd gyda hyfforddiant ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu i'r staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pwysigrwydd trefniadau cadarn o ran cadw cofnodion, gan gynnwys defnyddio'r ddogfennaeth llwybr gywir, yn cael eu pwysleisio i bob aelod o'r staff ar bob safle perthnasol.

Dylid sicrhau ansawdd hyn drwy archwilio cofnodon y cleifion yn rheolaidd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwnaethom gadarnhau y byddai cleifion yn cael eu trosglwyddo gyda'u cofnodion meddygol llawn fel sy'n ofynnol ac roedd systemau ar waith i gael gafael ar gofnodion electronig cyfredol, megis canlyniadau diagnostig. Dywedodd y staff wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a bod aelod dynodedig o'r staff yn goruchwilio'r gwaith o storio a diogelu'r cofnodion ar y safle.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod model llywodraethu lleol clir ar waith ar gyfer y safle a oedd yn cynnwys nifer o grwpiau gweithredol a grwpiau rheoli. Roedd yn gadarnhaol nodi bod grŵp wedi cael ei greu er mwyn goruchwyllo'r gwaith o sefydlu a gweithredu'r safle, a oedd yn cynnwys lansiad ysgafn cyn derbyn cleifion a fu o gymorth i gyfeirio staff allweddol a phartneriaid allanol.

Er i ni nodi bod cyfarfodydd diogelu dyddiol yn cael eu cynnal a bod cyfarfod ansawdd a diogelwch yn benodol i'r safle yn cael ei gynnal, nid oedd yn glir i ni pa lefel o sicrwydd y mae prif strwythur llywodraethu'r bwrdd iechyd a'r pwyllgor yn ei chael mewn perthynas â gweithredu, darparu a llywodraethu'r safle. Gan ystyried natur newydd safle'r ysbyty maes a'r risg naturiol sy'n gysylltiedig â'r model gofal blaenorol, byddem yn cynghori'r bwrdd iechyd i ystyried ei drosolwg ar y materion hyn.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar y safle, gan gynnwys gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a oedd wedi bod yn rhan o'r lansiad ysgafn ac wedi bod yn ymatebol wrth gludo cleifion ac ymateb i argyfyngau.

Roedd y staff yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth roeddent yn ei gael gan yr uwch-aelodau o'r staff. Roeddent yn canmol yn benodol arweinyddiaeth a chymorth effeithiol ar y safle gan yr Arweinydd Clinigol Ymgynghorol, y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd, y Pennaeth Nyrsio a'r Fetron.

Gwelsom hefyd fod ymgysylltu clinigol wedi cael ei gynnal â'r lleoliad aciwt trawsffiniol agosaf er mwyn cael adborth mewn perthynas â chleifion a gawsant eu trosglwyddo yno ar sail argyfwng eithriadol. Fodd bynnag, gwelsom fod hyn yn cael ei wneud fesul tipyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried trosolwg o brif strwythurau llywodraethu'r bwrdd iechyd a'r pwyllgor o ran materion sy'n ymwneud â'r ysbytai maes.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi model mwy cyson ar waith ar gyfer casglu adborth sy'n ymwneud ag achosion o drosglwyddo mewn argyfwng eithriadol er mwyn helpu i ddysgu gwersi neu fyfrio.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom fod gwaith cynllunio gofalus wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau bod nifer digonol o staff meddygol a staff nyrsio ar gael bob amser. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod anghenion staffio rhwng cam un a cham dau y model yn glir, a gwelsom fod mesurau diogelwch ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith yng ngham dau, megis sicrhau bod o leiaf un nyrs graidd ar gael ar bob sifft.

Gwnaethom hefyd ystyried y cymysgedd o ran sgiliau'r staff er mwyn sicrhau y gellid diwallu anghenion y cleifion yn llawn. Gwelsom fod y model staff meddygol a staff nyrsio wedi cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r newid i aciwtedd cleifion a oedd yn derbyn gofal, a oedd yn cynnwys staff â chefnidir aciwt yn cefnogi'r staff presennol. Roedd yn gadarnhaol nodi, lle nad oedd modd diwallu anghenion cleifion o ganlyniad i'r nifer staffio dros dro neu faterion o ran cymysgedd sgiliau, roedd atgyfeiriadau cleifion i'r safle yn cael eu gwrthod.

Cadarnhawyd i ni bod nifer o sifftiau wedi cael eu llenwi drwy ddefnyddio staff banc ac asiantaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn cael eu trefnu am gyfnodau estynedig gymaint â phosibl er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r safle a'i gleifion. Dywedwyd wrthym fod y safle wedi bod yn ffodus yn hyn o beth o ganlyniad i lefel y galw a'r diddordeb i weithio ar y safle.

Gwelsom dystiolaeth dda o drefniadau uwchsgilio a datblygu i'r staff a oedd wedi dewis gweithio ar y safle. Gwelsom fod pasbort sgiliau wedi cael ei ddatblygu ac y byddai unrhyw anghenion o ran hyfforddiant yn cael eu nodi fel rhan o'r broses hon. Cefnogwyd hyn gan nyrs datblygu ymarfer, ac, yn ôl y staff, roedd wedi darparu cymorth gwerthfawr i bob aelod o'r staff nyrsio a'r staff cymorth gofal iechyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriadau ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod y gwiriad ansawdd
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd hwn yn wiriad ansawdd o bell.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy

Ward/adran: Ysbyty maes

Dyddiad arolygu: 11-11 Chwefror 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mewn perthynas â chofnodion y cleifion, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:				
<ul style="list-style-type: none">Cynnal adolygiad achos o'r holl achosion o drosglwyddo mewn argyfwng o Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy. Mae hyn er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu dyblygu mewn cofnodion gofal eraill;	Safonau Iechyd a Gofal (Cymru) 3.1 / 3.3 / 3.5 / 5.1	Cafodd adolygiad o nodiadau achos ei gomisiynu a'i arwain gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol, Dr K Clark, a'i gefnogi gan Dr S Elghenzai (Meddyg Ymgynghorol COTE) ac E Humphreys (Pennaeth Nyrsio ar gyfer Meddyginiaeth). Cynhaliwyd yr adolygiad ar 22/02/2021	Dr K Clark	22/02/2021 Cwblhawyd
<ul style="list-style-type: none">Darparu crynodeb o'r canfyddiadau hyn i AGIC, gan gynnwys unrhyw themâu, gwersi a ddysgwyd neu fyfyrddodau sydd wedi codi o ganlyniad i'r adolygiadau;		Caiff yr adroddiad a amlinellir uchod ei ysgrifennu a'i rannu ag AGIC.	Dr K Clark	02/03/2021

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Darparu unrhyw adroddiadau ar ddigwyddiadau sydd ar gael sy'n ymwneud â gofal cleifion yn Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy 		<p>Mae adroddiad sy'n dangos y digwyddiadau wedi'i amgáu.</p> <p>Rydym hefyd wedi cynnwys (tab: detail) rhestr o'r prif ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt er mwyn galluogi cydberthynas â chanfyddiadau eich arolygiad</p> <p>Gweler Atodiad B - tabl tystiolaeth</p>	L Vernon	23/02/2021 – Cwblhawyd
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd wedi cael eu cymhwyso a bod hyn wedi cael ei sianelu drwy'r ysbyty maes priodol <u>A'R</u> systemau llywodraethu ar lefel y Bwrdd Iechyd fel y bo'n briodol. 		<p>Mae timau arwain clinigol a gweithredol wedi adolygu'r wersi a ddysgwyd – mae hyn wedi'i atodi yn Atodiad B – tabl tystiolaeth.</p> <p>Bydd y wersi allweddol a ddysgwyd sydd wedi'u nodi a'u rhoi ar waith er mwyn gwella yn cael eu monitro drwy ein cyfarfod Diogelwch Cleifion ac Ansawdd ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan (wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol)</p>	L Vernon	23/02/2021 – Cwblhawyd Cyfarfod Diogelwch Cleifion ac Ansawdd – 16 Mawrth 2021

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): M Jones

Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio – Gofal Eilaidd

Dyddiad: 23/02/2021

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy

Ward/adran: Ysbyty maes

Dyddiad arolygu: 10-11 Chwefror 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
<ul style="list-style-type: none">O ystyried amgylchedd newydd ysbyty maes, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod trafodaethau diwedd oes yn cael eu cofnodi yn nodiadau cleifion cyn iddynt gael eu trosglwyddo o'r safle er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion wedi gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.	4.1 Gofal ag Urddas	<ul style="list-style-type: none">Diweddarau ffurflen atgyfeirio Enfys er mwyn cynnwys cadarnhad bod trafodaethau diwedd oes wedi cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion cyn iddynt gael eu trosglwyddo a bod y drafodaeth wedi cael ei chynnal â'r claf a/neu'r teulu.Cwblhau archwiliadau misol o'r ffurflenni atgyfeirio er mwyn rhoi sicrwydd i'r grŵp diogelwch cleifion ac ansawdd.	E. Hall E. Hall	22/03/21 22.04.21

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y llwybr cywir a'r ddogfennaeth gywir yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal unigol yn unol â'i bolisi ei hun a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes. 		<ul style="list-style-type: none"> Meddygon a nyrsys enwebedig i ymgymryd â hyfforddiant llwybr diwedd oes 16/03/2021. Rheadru'r hyfforddiant diwedd oes i'r tîm ehangach er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth o 75%. Parhau i archwilio'r llwybr diwedd oes – i'w gwblhau yn archwiliad misol y fetron. Cynnwys cydymffurfiaeth mewn perthynas â dogfennaeth llwybr diwedd oes yn Ysbyty Enfys – Adroddiad A Driphlyg i'r Grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Gofal Eilaidd. 	<p>E. Hall 16/03/21</p> <p>E. Hall 30/03/21</p> <p>K. Scandariato Cwblhawyd</p> <p>C. Froom 09/04/21</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu polisi atal a rheoli heintiau ei safle a chynnal asesiad risg sylweddol er mwyn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau 	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfod amlddisgyblaethol rhwng y tîm atal a rheoli heintiau, Iechyd Cyhoeddus Cymru a thîm clinigol Ysbyty Enfys i adolygu'r 	C. Abbott	30/03/2021

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>yn cael eu bodloni yn unol â'r grŵp cleifion a'r model gofal. Cynghorir y bwrdd iechyd i ymgynghori ag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau arfer gorau yn cael eu hystyried.</p>		<p>asesiad risg atal a rheoli heintiau er mwyn cysoni â'r canllawiau cyfredol.</p>		
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried addasrwydd ei benderfyniad i dderbyn cleifion deg diwrnod ar ôl iddynt gael eu diagnosis positif o COVID-19 yn barhaus, gan gynnwys lleoliad y cleifion hyn ar y ward, er mwyn sicrhau y gellir darparu gofal effeithiol sy'n cydymffurfio â mesurau atal a rheoli heintiau. 	<p>Gofal diogel ac effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweler y cam gweithredu uchod 		
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pwysigrwydd trefniadau cadarn o ran cadw cofnodion, gan gynnwys defnyddio'r ddogfennaeth llwybr gywir, yn cael eu pwysleisio i bob aelod o'r staff ar bob safle perthnasol. Dylid sicrhau ansawdd hyn drwy archwilio cofnodon y cleifion yn rheolaidd. 	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Gofal Eilaidd i dynnu sylw'r priod Gyfarwyddwyr Nyrsio at y canfyddiadau ynghylch trefniadau cadarn o gadw cofnodion, gan ategu pwysigrwydd bodloni'r safonau disgwylidig a defnyddio dogfennaeth llwybr gywir. 	<p>M. Jones/?? D. Hickman</p>	<p>30/03/21</p> <p>30/03/21</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Ail-gyflwyno Archwiliad Achredu Misol y Fetron a chyflwyno'r mater o gydymffurfio â safonau dogfennu yng nghyfarfod uwch aelodau o'r staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. 	D. Hickman	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<ul style="list-style-type: none"> Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried trosolwg o brif strwythurau llywodraethu'r bwrdd iechyd a'r pwyllgor o ran materion sy'n ymwneud â'r ysbytai maes. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi model mwy cyson ar waith ar gyfer casglu adborth sy'n ymwneud ag achosion o drosglwyddo mewn argyfwng eithriadol er mwyn helpu i ddysgu gwersi neu fyfyrrio. 	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu strwythur pwyllgor llywodraethu, o Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy i'r Bwrdd. Cyflwyno adroddiad A Driphlyg i'r Grŵp Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Gofal Eilaidd bob mis. O fewn y Strwythur Rheoli Tactegol, cynrychiolydd o Ysbyty Enfys yn cwblhau SITREP Bedford ac yn mynychu'r galwadau cynadledda am 10am a 4.30pm er mwyn rhoi manylion am sefyllfa'r safle a rhoi gwybod am unrhyw drosglwyddiadau. Rhoi gwybod am eithriadau i'r cyfarfod 	D. Hickman C. Froom C. Froom C. Froom	22/03/21 Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>EIMT drwy adroddiad gweithredol Rheoli Tactegol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod adroddiad DATIX a 'Make It Safe' yn cael eu cwblhau o fewn 72 awr. Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd ar gyfer hwn yn cael eu nodi a'u hadrodd i gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy ac, os bydd angen, eu huwchgyfeirio at gyfarfod diogelwch cleifion ac Ansawdd Gofal Eilaidd. 		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): M Jones

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio (Safle)

Dyddiad: 17/03/2021